# Ffurflen Dreth Partneriaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2011

Cyllid & Thollau EM

Cyfeirnod treth

Dyddiad

Cyfeiriad Swyddfa Cyllid a Thollau EM

Ffôn

Cyfeiriad dosbarthu

Ar gyfer
Cyfeirnod

***Mae'r Hysbysiad** hwn yn ei gwneud yn ofynnol yn ôl y gyfraith i chi anfon ffurflen dreth sy'n cynnwys manylion incwm ac asedion trethadwy a waredwyd, ac unrhyw ddogfennau y gofynnwn amdanynt, atom ar gyfer y flwyddyn o 6 Ebrill 2010 i 5 Ebrill 2011.*

*Gallwch gyflwyno'r ffurflen dreth drwy ddefnyddio:*

- *y ffurflen hon ac unrhyw dudalennau atodol sydd eu hangen arnoch; **NEU***
- *y rhyngrwyd **(bydd angen i chi ddefnyddio meddalwedd masnachol ac o bosib bydd yn rhaid i chi ei brynu)**. Os byddwch yn cyflwyno ar-lein cewch neges ar unwaith i gydnabod bod eich ffurflen dreth wedi'i derbyn yn ddiogel. I gyflwyno ewch i **www.hmrc.gov.uk/online***

***Gwnewch yn siŵr fod eich ffurflen dreth, ac unrhyw ddogfennau y gofynnwyd amdanynt, yn ein cyrraedd erbyn:***

- ***31 Hydref 2011** os byddwch yn cwblhau ffurflen dreth bapur; **NEU***
- ***31 Ionawr 2012** os cyflwynwch ar-lein.*

*Gweler tudalen PTRG 30 y canllaw ar gyfer y dyddiadau cyflwyno os anfonwyd yr hysbysiad hwn atoch ar ôl 31 Gorffennaf 2011 neu os yw'r bartneriaeth yn cynnwys cwmni fel partner.*

*Mae pob partner a oedd yn aelod o'r bartneriaeth yn ystod y cyfnod datgan yn agored i gosbau awtomatig os nad yw'r Ffurflen Dreth Partneriaeth yn ein cyrraedd erbyn y dyddiad cyflwyno perthnasol a welir uchod. Bydd yn rhaid iddynt dalu llog ac efallai y bydd yn rhaid iddynt dalu cosb am dalu'n hwyr ar unrhyw dreth a dalant yn hwyr.*

*Caiff pob ffurflen dreth ei gwirio ac mae cosbau am gyflenwi gwybodaeth ffug neu anghyflawn.*

### *Pwy ddylai ddychwelyd y Ffurflen Dreth Partneriaeth?*

*Os yw'r Ffurflen Dreth Partneriaeth hon wedi cael ei rhoi yn enw'r bartneriaeth, yna mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r partner a enwebwyd gan aelodau eraill y bartneriaeth yn ystod y cyfnod a gwmpaswyd gan y ffurflen dreth ei chwblhau a'i dychwelyd atom. Os nad yw'r partneriaid yn gallu enwebu rhywun, dylent ofyn i ni enwebu un ohonynt.*

*Os rhoddwyd y Ffurflen Dreth Partneriaeth hon yn enw partner penodol, yna mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r partner hwnnw ei dychwelyd atom.*

### *Y Ffurflen Dreth Partneriaeth – eich cyfrifoldebau chi*

*Rydym wedi anfon tudalennau 1 i 8 y ffurflen dreth atoch; mae'r rhain yn cwmpasu'r mathau mwyaf cyffredin o incwm partneriaeth. Efallai y bydd angen tudalennau atodol eraill arnoch, **nad** ydym wedi eu hanfon atoch, ar gyfer mathau eraill o incwm a gwarediadau.*

*Chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod y tudalennau cywir gennych. Atebwch y cwestiynau ar dudalen 2 y ffurflen hon er mwyn darganfod a yw'r rhai cywir gennych.*

*Dylech sicrhau fod yr wybodaeth sydd ei hangen ar bartneriaid unigol er mwyn iddynt gwblhau eu ffurflenni treth personol yn cael ei rhoi iddynt cyn gynted â phosibl (efallai y bydd rhai partneriaid am ddychwelyd eu ffurflenni treth eu hunain erbyn 31 Hydref 2011).*

### *Os bydd angen help arnoch:*

- *darllenwch y Canllaw i'r Ffurflen Dreth Partneriaeth, **NEU***
- *ffoniwch y rhif a welir uchod - gellir ateb y rhan fwyaf o ymholiadau dros y ffôn, **NEU***
- *am gyngor cyffredinol ffoniwch ein Llinell Gymorth ar **0845 302 1489** (Cymraeg) neu **0845 9000 444** (Saesneg), **NEU***
- *ewch i **www.hmrc.gov.uk/sa***

## INCWM BUSNES A BUDDSODDI PARTNERIAETH *ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2011*

Atebwch Gwestiynau 1 i 6 ar y dudalen hon a Chwestiwn 7 ar dudalen 8 er mwyn gwneud yn siŵr bod gennych y tudalennau sydd eu hangen arnoch i gwblhau ffurflen dreth gyflawn o incwm partneriaeth a gwybodaeth gysylltiol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2011. Os atebwch yn gadarnhaol, mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr bod y tudalennau cywir gennych ac yna cwblhewch y blychau perthnasol. Os nad atebwch yn gadarnhaol, ewch i'r cwestiwn nesaf.

Ffoniwch y Llinell Archebu ar **0845 302 1489 (ffacs 01766 516100)** i gael y tudalennau atodol a'r nodiadau priodol. Os ydych yn byw neu'n gweithio dramor ffoniwch y Llinell Archebu drwy ddeialu'r Côd Mynediad Rhyngwladol ac yna **(+44) 161 930 8331**, neu ffacs **(+44) 87 0155 5778**. Mae'r Llinell Archebu ar gau ar ddydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd San Steffan a Dydd Calan.

Neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

***Gwnewch yn siŵr fod y tudalennau atodol cywir gennych (gan gynnwys y tudalennau Cynilion Partneriaeth – gweler Cwestiwn 7) ac yna ticiwch y blwch isod***

**C1** A dderbyniodd y bartneriaeth unrhyw rent neu incwm arall o eiddo yn y DU? **DO** ☐ — **EIDDO YN Y DU** ☐

**C2** A oedd gan y bartneriaeth unrhyw incwm tramor? **OEDD** ☐ — **TRAMOR** ☐

**C3** A oedd busnes y bartneriaeth yn cynnwys unrhyw fasnach neu broffesiwn ar unrhyw adeg rhwng 6 Ebrill 2010 a 5 Ebrill 2011? **OEDD** ☐ — **Os Oedd**, cwblhewch flychau 3.1 i 3.117 ar dudalennau 2 i 5 fel y bo'n briodol.

**C4** A waredodd y bartneriaeth unrhyw asedion trethadwy? **DO** ☐ — **ASEDAU TRETHADWY** ☐

**C5** Yn ystod y cyfnod datgan a yw'r bartneriaeth wedi cynnwys unrhyw aelod:

- sydd yn gwmni? **YDY** ☐
- nad yw'n breswylydd yn y DU? **YDY** ☐ — **Os Ydy**, darllenwch dudalen PTRG 21 y Canllaw i'r Ffurflen Dreth Partneriaeth ynglŷn â llenwi Datganiad y Bartneriaeth.
- sydd yn bartner mewn busnes a reolir dramor ac nad yw ei ddomisil yn y DU neu nad yw fel arfer yn breswylydd yn y DU? **YDY** ☐ — **Os Ydy**, darllenwch dudalen PTRG 6 y Canllaw i'r Ffurflen Dreth Partneriaeth.

**C6** A ydych yn cwblhau'r ffurflen dreth hon ar ran Grŵp â Buddiant Economaidd Ewropeaidd (EEIG)? **YDW** ☐ — **Os Ydw**, darllenwch dudalen PTRG 7 y Canllaw i'r Ffurflen Dreth Partneriaeth.

## INCWM MASNACHU AC INCWM PROFFESIYNOL *ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2011*

**Rhaid i chi gwblhau cyfres o flychau ar gyfer pob masnach a gyflawnwyd gan y bartneriaeth ac efallai y bydd yn rhaid i chi gwblhau cyfres ar wahân os oedd cyfrifon y bartneriaeth wedi eu paratoi hyd at fwy nag un dyddiad yn y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2011. Darllenwch y rheolau ar dudalennau PTRG 7 i 11 y Canllaw i'r Ffurflen Dreth Partneriaeth.**

*Sylwch nad yw rhifau blychau 3.3, 3.6, 3.9, 3.74 i 3.81, 3.85 i 3.92, a 3.94 i 3.96 yn cael eu defnyddio.*

### ■ *Manylion y Bartneriaeth*

**Enw'r busnes**

**3.1** ☐

Disgrifiad o fasnach neu broffesiwn y bartneriaeth

**3.2** ☐

**Cyfnod cyfrifyddu** - *darllenwch y nodiadau ar dudalen PTRG 8 y Canllaw i'r Ffurflen Dreth Partneriaeth*

Dechrau **3.4** / /

Diwedd **3.5** / /

- Dyddiad cychwyn (os ar ôl 5 Ebrill 2008) **3.7** / /
- Dyddiad dod i ben (os cyn 6 Ebrill 2011) **3.8** / /
- Ticiwch flwch 3.10 os nad yw'n ofynnol i chi gwblhau 3.14 i 3.93 a blychau 3.99 i 3.115 **3.10** ☐

- Ticiwch flwch 3.11 os nad yw cyfrifon y bartneriaeth yn cwmpasu'r cyfnod o'r dyddiad cyfrifyddu diwethaf (eglurwch pam yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol', blwch 3.116 ar dudalen 3) **3.11** ☐
- Ticiwch flwch 3.12 os bydd eich dyddiad cyfrifyddu wedi newid (dim ond os yw hyn yn newid parhaol ac rydych am iddo gyfrif at ddibenion treth) **3.12** ☐
- Ticiwch flwch 3.13 os mai hwn yw'r ail newid neu newid pellach (eglurwch pam nad ydych wedi defnyddio'r un dyddiad â'r llynedd yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol', blwch 3.116 ar dudalen 3). **3.13** ☐

## *Lwfansau Cyfalaf - crynodeb*

| | Lwfansau cyfalaf | Taliadau mantoli |
|---|---|---|
| • Lwfans Buddsoddi Blynyddol *(dylech gynnwys unrhyw daliadau mantoli ym mlwch 3.17 isod)* | **3.13A** £ | |
| • Ceir sy'n costio mwy na £12,000 (Dylid gwneud cyfrifiadau ar wahân ar gyfer pob car) | **3.14** £ | **3.15** £ |
| • Lwfansau cyfalaf o 20% ar gyfarpar, gan gynnwys ceir ag allyriad $CO_2$ is | **3.14A** £ | **3.15A** £ |
| • Lwfansau cyfalaf o 10% ar gyfarpar, gan gynnwys ceir gydag allyriad $CO_2$ uwch | **3.16** £ | **3.17** £ |
| • Lwfans Adeiladau Amaethyddol neu Ddiwydiannol (Mae'n rhaid gwneud cyfrifiad ar wahân ar gyfer pob bloc gwariant.) | **3.18** £ | **3.19** £ |
| • Lwfansau 100% a lwfansau cyfalaf uwch eraill a hawlir (rhaid gwneud cyfrifiadau ar wahân). (Rhaid cynnwys ceisiadau am lwfansau a thaliadau mantoli sy'n codi ynghylch Lwfans Adnewyddu Eiddo Busnes ym mlychau 10.4 a 10.5 yn y drefn honno.) | **3.20** £ | **3.21** £ |
| | cyfanswm y golofn uchod | cyfanswm y golofn uchod |
| **Cyfanswm y lwfansau cyfalaf/taliadau mantoli** | **3.22** £ | **3.23** £ |

## *Incwm a threuliau ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu hwn*

*Darllenwch dudalen PTRG 12 y nodiadau cyn cwblhau'r adran hon.*

*Os oedd eich trosiant blynyddol yn* ***is na £70,000*** *(neu mi fyddai petaech wedi masnachu am y flwyddyn gyfan)* ***cwblhewch flychau 3.24 i 3.26 yn lle tudalen 4.***

*Os oedd eich trosiant blynyddol* ***rhwng £70,000 a £15 miliwn*** *(neu mi fyddai petaech wedi masnachu am y flwyddyn gyfan)* ***anwybyddwch flychau 3.24 i 3.26. Nawr cwblhewch dudalen 4.***

*Os oedd y trosiant blynyddol cyfunol o'ch* ***holl*** *weithgareddau yn* ***fwy na £15 miliwn, llenwch flychau 3.24 i 3.26 ac anfonwch gyfrifon y bartneriaeth yn ogystal â chyfrifiannau atom.***

***Cwblhewch flwch 3.83 neu flwch 3.84*** *ar dudalen 5, a'r holl flychau eraill ar dudalen 5 os yn briodol, ym mhob achos.*

| | |
|---|---|
| • Trosiant gan gynnwys derbyniadau busnes eraill, a nwyddau ac ati a gymerwyd at ddefnydd personol (a thaliadau mantoli o flwch 3.23) | **3.24** £ |
| • Treuliau caniataol at ddibenion treth (gan gynnwys lwfansau cyfalaf o flwch 3.22) | **3.25** £ |
| | blwch 3.24 *llai* blwch 3.25 |
| **Elw net ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu hwn (rhowch y ffigur mewn cromfachau os oedd colled)** | **3.26** £ |

**3.116** *Gwybodaeth ychwanegol*



*Trowch drosodd*

## *Incwm a threuliau ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu hwn*

*Rhaid i chi gwblhau'r dudalen hon os oedd eich trosiant blynyddol rhwng £70,000 a £15 miliwn. Os oedd trosiant blynyddol cyfunol eich holl weithgareddau yn fwy na £15 miliwn, cwblhewch flychau 3.24 i 3.26 ar dudalen 3 ac anfonwch gyfrifon y bartneriaeth yn ogystal â'r cyfrifiannau atom. Cwblhewch flwch 3.83 neu flwch 3.84 ar dudalen 5, a'r blychau eraill ar dudalen 5 os yn briodol, ym mhob achos. Darllenwch y nodiadau ar dudalen PTRG 12 y Canllaw i'r Ffurflen Dreth Partneriaeth.*

Os oeddech wedi eich cofrestru ar gyfer TAW, a yw'r ffigurau ym mlychau 3.29 i 3.64 yn cynnwys TAW? **3.27** [ ] neu'n eithrio TAW? **3.28** [ ]

**Incwm gwerthiant/busnes (trosiant)** **3.29** £

| | Treuliau anghaniataol a gynhwyswyd ym mlychau 3.46 i 3.63 | Cyfanswm y treuliau | |
|---|---|---|---|
| • Cost gwerthiant | 3.30 £ | 3.46 £ | |
| • Costau isgontractwyr y diwydiant adeiladu | 3.31 £ | 3.47 £ | |
| • Costau uniongyrchol eraill | 3.32 £ | 3.48 £ | |
| **Elw/(colled) gros** | | | blwch 3.29 *llai* (blychau 3.46 + 3.47 + 3.48) 3.49 £ |
| **Incwm/elw arall** | | | 3.50 £ |
| • Costau gweithwyr | 3.33 £ | 3.51 £ | |
| • Costau adeiladau | 3.34 £ | 3.52 £ | |
| • Atgyweiriadau | 3.35 £ | 3.53 £ | |
| • Treuliau gweinyddu cyffredinol | 3.36 £ | 3.54 £ | |
| • Treuliau moduron | 3.37 £ | 3.55 £ | |
| • Teithio a chynhaliaeth | 3.38 £ | 3.56 £ | |
| • Hysbysebu, hyrwyddo a gwesteia | 3.39 £ | 3.57 £ | |
| • Costau cyfreithiol a phroffesiynol | 3.40 £ | 3.58 £ | |
| • Drwgddyledion | 3.41 £ | 3.59 £ | |
| • Llog a thaliadau ariannu amgen | 3.42 £ | 3.60 £ | |
| • Taliadau ariannu eraill | 3.43 £ | 3.61 £ | |
| • Dibrisiant a cholled/(elw) wrth werthu | 3.44 £ | 3.62 £ | |
| • Treuliau eraill gan gynnwys taliadau partneriaeth | 3.45 £ | 3.63 £ | |
| | Rhowch gyfanswm blychau 3.30 i 3.45 **ym mlwch 3.66 isod** | Cyfanswm y treuliau | blychau 3.51 i 3.63 3.64 £ |
| | | Elw/(colled) net | blychau 3.49 + 3.50 *llai* 3.64 3.65 £ |

## *Addasiadau treth i elw neu golled net ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu hwn*

| | | |
|---|---|---|
| • Treuliau anghaniataol | blychau 3.30 i 3.45 3.66 £ | |
| • Nwyddau ac ati a gymerwyd at ddefnydd personol ac addasiadau eraill (heblaw treuliau anghaniataol) sy'n cynyddu elw | 3.67 £ | |
| • Taliadau mantoli (o flwch 3.23) | 3.68 £ | |
| **Cyfanswm yr ychwanegiadau at yr elw net** (didynnwch o'r golled net) | | blychau 3.66 + 3.67 + 3.68 3.69 £ |
| • Lwfansau cyfalaf (o flwch 3.22) | 3.70 £ | |
| • Didyniadau o'r elw net (adiwch at y golled net) | 3.71 £ | blychau 3.70 + 3.71 3.72 £ |
| **Elw busnes net at ddibenion treth ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu hwn (rhowch y ffigur mewn cromfachau os oedd colled)** | | blychau 3.65 + 3.69 *llai* blwch 3.72 3.73 £ |

## *Elw trethadwy neu golled ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu hwn*

- Addasiad wrth newid sail — **3.82** £ — *Copïwch y ffigur hwn i flwch 11A yn y Datganiad Partneriaeth*

**Elw net ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu hwn (os oedd colled, nodwch '0' yma) o flwch 3.26 neu flwch 3.73** — **3.83** £ — *Copïwch y ffigur hwn i flwch 11 yn y Datganiad Partneriaeth*

**Colled ganiataol ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu hwn (os oedd elw, rhowch '0' yma) o flwch 3.26 neu flwch 3.73** — **3.84** £ — *Copïwch y ffigur hwn i flwch 12 yn y Datganiad Partneriaeth*

Ticiwch flwch 3.93 os yw'r ffigur ym mlwch 3.83 neu flwch 3.84 yn un dros dro — **3.93**

## *Isgontractwyr yn y diwydiant adeiladu*

- Didyniadau ar ddatganiadau tâl didyniad a roddwyd gan gontractwyr – isgontractwyr yn y diwydiant adeiladu yn unig — **3.97** £ — *Copïwch y figur hwn i flwch 24 yn y Datganiad Partneriaeth*

## *Treth a ddidynnwyd o incwm masnachu*

- Treth a ddidynnwyd (ac eithrio didyniadau a wnaed gan gontractwyr ar gyfer treth) o incwm masnachu — **3.98** £ — *Copïwch y figur hwn i flwch 24A yn y Datganiad Partneriaeth*

*Gweler tudalen PTRG 5 y Canllaw i'r Ffurflen Dreth Partneriaeth os ydych yn 'Bartneriaeth CT'*

## *Crynodeb o'r fantolen ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu hwn*

*Gadewch y blychau hyn yn wag os nad oes gennych fantolen neu os yw eich trosiant blynyddol yn fwy na £15 miliwn.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Asedion* | Offer, peiriannau a cherbydau modur | **3.99** £ | |
| | Asedion sefydlog eraill (eiddo, ewyllys da, buddsoddiadau ac ati) | **3.100** £ | |
| | Stoc a gwaith ar y gweill | **3.101** £ | |
| | Dyledwyr/rhagdaliadau/asedion cyfredol eraill | **3.102** £ | |
| | Gweddill banc/cymdeithas adeiladu | **3.103** £ | |
| | Arian parod mewn llaw | **3.104** £ | blychau 3.99 i 3.104 **3.105** £ |
| *Rhwymedigaethau* | Credydwyr/croniadau masnachu | **3.106** £ | |
| | Benthyciadau a chyfrifon banc wedi'u gorgodi | **3.107** £ | |
| | Rhwymedigaethau eraill | **3.108** £ | blychau 3.106 i 3.108 **3.109** £ |

***Asedion busnes net*** (rhowch y ffigur mewn cromfachau os oedd gennych rwymedigaethau busnes net) — blwch 3.105 *llai* blwch 3.109 **3.110** £

### *Wedi'u cynrychioli gan gyfrifon cyfredol a chyfalaf y partneriaid*

| | | |
|---|---|---|
| Gweddill ar ddechrau'r cyfnod* | **3.111** £ | |
| Elw/(colled) net* | **3.112** £ | |
| Cyfalaf a gyflwynwyd | **3.113** £ | |
| Tyniadau | **3.114** £ | |
| Gweddill ar ddiwedd y cyfnod* | | blychau 3.111 i 3.113 *llai* blwch 3.114 **3.115** £ |

* Os yw'r cyfrif cyfalaf wedi'i orgodi, neu os gwnaeth y busnes golled net, dangoswch y ffigur mewn cromfachau.

*Mae blwch 3.116 'Gwybodaeth ychwanegol' ar dudalen 3*

## *Taliadau masnach partneriaeth*

- Taliadau net y bartneriaeth a dalwyd yn y cyfnod 6 Ebrill 2010 i 5 Ebrill 2011 (**nid** y cyfnod cyfrifyddu) — **3.117** £


*Trowch drosodd*

# DATGANIAD PARTNERIAETH (BYR) *ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2011*

***Darllenwch y cyfarwyddiadau hyn cyn cwblhau'r Datganiad***

Defnyddiwch y tudalennau hyn i ddyrannu incwm partneriaeth os mai'r unig incwm ar gyfer y cyfnod datgan perthnasol oedd incwm masnachu a phroffesiynol neu log a derbyniadau ariannu amgen wedi'i drethu o fanciau neu gymdeithasau adeiladu. Fel arall, mae'n rhaid i chi ofyn i'r Llinell Archebu am y tudalennau *Datganiad Partneriaeth (Llawn)* er mwyn cofnodi manylion dyrannu holl incwm y bartneriaeth.

**Cam 1** Cwblhewch flychau 1 i 29 a blychau A a B fel y bo'n briodol. Casglwch y ffigurau sydd eu hangen arnoch o'r blychau perthnasol yn y Ffurflen Dreth Partneriaeth. Cwblhewch Ddatganiad ar wahân ar gyfer pob cyfnod cyfrifyddu a gwmpesir gan y Ffurflen Dreth Partneriaeth hon ac ar gyfer pob masnach neu broffesiwn a gyflawnwyd gan y bartneriaeth.

**Cam 2** Yna dyrannwch y symiau ym mlychau 11 i 29 y gellir eu priodoli i bob partner drwy ddefnyddio'r colofnau dyrannu ar y dudalen hon ac ar dudalen 7 (gweler tudalennau PTRG 21 i 25 y Canllaw i'r Ffurflen Dreth Partneriaeth am help). Os oes gan y bartneriaeth fwy na thri phartner, llungopïwch dudalen 7.

**Cam 3** Bydd angen copi o ddyraniad eu hincwm ar bob partner fel y gallant gwblhau eu ffurflen dreth bersonol.

## GWYBODAETH AM Y BARTNERIAETH

Os yw busnes y bartneriaeth yn cynnwys masnach neu broffesiwn nodwch yma, y cyfnod cyfrifyddu y gwneir datganiad ar gyfer eitemau priodol yn y datganiad hwn.

Dechrau **1** / /

Gorffen **2** / /

Natur y fasnach **3**

## PARTNERIAETHAU CYMYSG

Ticiwch yma os lluniwyd y datganiad hwn drwy ddefnyddio Rheolau Treth Gorfforaeth. **4**

Ticiwch yma os lluniwyd y datganiad hwn drwy ddefnyddio rheolau treth ar gyfer pobl ddi-breswyl **5**

## Manylion partner unigol

**6** Enw'r partner

Cyfeiriad

Cod post

Dyddiad penodi yn bartner (os yn ystod 2009-10 neu 2010-11) **7** / /

Cyfeirnod Trethdalwr Unigryw (UTR) y partner **8**

Dyddiad peidio â bod yn bartner (os yn ystod 2009-10 neu 2010-11) **9** / /

Rhif Yswiriant Gwladol y Partner **10**

## Elw, colledion, incwm, credydau treth ac ati'r bartneriaeth ac ati.

## Cyfran y partner o elw, colledion, incwm, credydau treth ac ati.

Ticiwch y blwch hwn os didynnwyd treth dramor o'r eitemau a nodwyd yn y blwch ▼

***Copïwch y ffigurau ym mlychau 11 i 29 i flychau yn Nhudalennau Partneriaeth (byr) yr unigolyn fel y dangosir isod***

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **• ar gyfer cyfnod cyfrifyddu a ddaeth i ben yn 2010-11** | | | | | | |
| **o flwch 3.83** | Elw o fasnach neu broffesiwn | **A** | **11** £ | Elw | **11** £ | *Copïwch y ffigur hwn i flwch 7* |
| **o flwch 3.82** | Addasiad ar newid sail | | **11A** £ | | **11A** £ | *Copïwch y ffigur hwn i flwch 9* |
| **o flwch 3.84** | Colled o fasnach neu broffesiwn | **B** | **12** £ | Colled | **12** £ | *Copïwch y ffigur hwn i flwch 7* |
| **• ar gyfer y cyfnod 6 Ebrill 2010 i 5 Ebrill 2011*** | | | | | | |
| **o flwch 7.9A** | Llog a derbyniadau ariannu amgen yn y DU a drethwyd | | **22** £ | | **22** £ | *Copïwch y ffigur hwn i flwch 26* |
| **o flwch 3.97** | Didyniadau CIS a wnaed gan gontractwyr i gyfrif am y dreth | | **24** £ | | **24** £ | *Copïwch y ffigur hwn i flwch 28* |
| **o flwch 3.98** | Treth arall a ddidynnwyd o incwm masnachu | | **24A** £ | | **24A** £ | *Copïwch y ffigur hwn i flwch 29* |
| **o flwch 7.8A** | Treth incwm a ddidynnwyd | | **25** £ | | **25** £ | *Copïwch y ffigur hwn i flwch 27* |
| **o flwch 3.117** | Taliadau partneriaeth a godir | | **29** £ | | **29** £ | *Copïwch y ffigur hwn i flwch 4 o dan adran 'Rhyddhad treth arall' ar dudalen Ai 2 ar eich ffurflen dreth bersonol* |

** gweler tudalen PTRG 5 y Canllaw i'r Ffurflen Dreth Partneriaeth os ydych yn 'Bartneriaeth CT'*

## *Manylion partner unigol*

**6** Enw'r partner

Cyfeiriad

Cod post

Dyddiad penodi yn bartner (os yn ystod 2009-10 neu 2010-11)

**7** / /

Cyfeirnod Trethdalwr Unigryw (UTR) y partner

**8**

Dyddiad peidio â bod yn bartner (os yn ystod 2009-10 neu 2010-11)

**9** / /

Rhif Yswiriant Gwladol y Partner

**10**

## *Cyfran y partner o elw, colledion, incwm, credydau treth ac ati.*

*Copïwch y ffigurau ym mlychau 11 i 29 i flychau yn Nhudalennau Partneriaeth (byr) yr unigolyn fel y dangosir isod*

| | Blwch | | |
|---|---|---|---|
| Elw | **11** | £ | *Copïwch y ffigur hwn i 7* |
| | **11A** | £ | *Copïwch y ffigur hwn i 9* |
| Colled | **12** | £ | *Copïwch y ffigur hwn i 7* |
| | **22** | £ | *Copïwch y ffigur hwn i 26* |
| | **24** | £ | *Copïwch y ffigur hwn i 28* |
| | **24A** | £ | *Copïwch y ffigur hwn i 29* |
| | **25** | £ | *Copïwch y ffigur hwn i 27* |
| | **29** | £ | *Copïwch y ffigur hwn i flwch 4 o dan adran 'Rhyddhad treth arall' ar dudalen Ai 2 ar eich ffurflen dreth bersonol* |


## *Manylion partner unigol*

**6** Enw'r partner

Cyfeiriad

Cod post

Dyddiad penodi yn bartner os yn ystod 2009-10 neu 2010-11)

**7** / /

Cyfeirnod Trethdalwr Unigryw (UTR) y partner

**8**

Dyddiad peidio â bod yn bartner (os yn ystod 2009-10 neu 2010-11)

**9** / /

Rhif Yswiriant Gwladol y Partner

**10**

## *Cyfran y partner o elw, colledion, incwm, credydau treth ac ati.*

*Copïwch y ffigurau ym mlychau 11 i 29 i flychau yn Nhudalennau Partneriaeth (byr) yr unigolyn fel y dangosir isod*

| | Blwch | | |
|---|---|---|---|
| Elw | **11** | £ | *Copïwch y ffigur hwn i 7* |
| | **11A** | £ | *Copïwch y ffigur hwn i 9* |
| Colled | **12** | £ | *Copïwch y ffigur hwn i 7* |
| | **22** | £ | *Copïwch y ffigur hwn i 26* |
| | **24** | £ | *Copïwch y ffigur hwn i 28* |
| | **24A** | £ | *Copïwch y ffigur hwn i 29* |
| | **25** | £ | *Copïwch y ffigur hwn i 27* |
| | **29** | £ | *Copïwch y ffigur hwn i flwch 4 o dan adran 'Rhyddhad treth arall' ar dudalen Ai 2 ar eich ffurflen dreth bersonol* |




*Trowch drosodd*

## GWYBODAETH ARALL *ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2011*

**C7** **A dderbyniodd y bartneriaeth unrhyw incwm arall na chynhwyswyd eisoes yn rywle arall ar y Ffurflen Dreth Partneriaeth?**

*Gwnewch yn siŵr eich bod yn cwblhau'r tudalennau ar gyfer Cwestiynau 1 i 4 cyn ateb Cwestiwn 7*

DO

*Os Do, darllenwch y nodyn isod*

Os ydych wedi ticio'r blwch 'Do' a'r unig incwm oedd llog, neu dderbyniadau ariannu amgen gyda threth wedi'i didynnu, o fanciau a chymdeithasau adeiladu cwblhewch flychau 7.7A i 7.9A isod. Fel arall, ffoniwch y Llinell Archebu a gofynnwch am y Tudalennau Cynilion Partneriaeth a gadewch flychau 7.7A i 7.9A yn wag. Os oes mwy nag un cyfrif gennych, nodwch y **cyfansymiau** yn y blychau.

- Llog a derbyniadau ariannu amgen o fanciau a chymdeithasau adeiladu yn y DU a dalwyd **gyda** threth wedi'i didynnu am y cyfnod 6 Ebrill 2010 i 5 Ebrill 2011 (**nid** y cyfnod cyfrifyddu)

| Swm ar ôl didynnu treth | Treth a ddidynnwyd | Swm gros cyn treth |
|---|---|---|
| 7.7A £ | 7.8A £ | 7.9A £ |
| | *Copïwch y ffigur hwn i flwch 25 yn y Datganiad Partneriaeth* | *Copïwch y ffigur hwn i flwch 22 yn y Datganiad Partneriaeth* |

**C8** **A yw'r manylion ar flaen y Ffurflen Dreth Partneriaeth yn anghywir?**

YDYN

**Os Ydyn**, gwnewch unrhyw gywiriadau ar flaen y ffurflen

**C9** **Rhowch rif ffôn yn ystod y dydd (gan gynnwys côd yr ardal) ym mlychau 9.1 a 9.2.**

Yn aml mae'n symlach ffonio os bydd angen i ni ofyn rhywbeth i chi ynglŷn â'ch ffurflen dreth.

Eich rhif ffôn

9.1

neu, os yw'n well gennych, rhif ffôn eich cynghorydd

9.2

Enw a chyfeiriad eich cynghorydd

9.3

Cod post

**C10** **Gwybodaeth arall**

Ticiwch flwch 10.1 os yw'r Ffurflen Dreth Partneriaeth hon yn cynnwys ffigurau sydd dros dro am nad yw'r ffigurau terfynol gennych eto. Mae tudalen PTRG 26 y Canllaw i'r Ffurflen Dreth Partneriaeth yn egluro'r amgylchiadau y gellir defnyddio ffigurau dros dro ac yn gofyn i chi roi gwybodaeth ychwanegol ym mlwch 3.116 ar dudalen 3. 10.1

**Datgelu cynlluniau osgoi treth** – Os ydy'r Bartneriaeth yn gyfranogwr mewn un neu ragor o gynlluniau osgoi treth sy'n rhaid eu datgelu, mae'n rhaid i chi gwblhau blychau 10.2 a 10.3. Rhowch fanylion pob cynllun (hyd at 3) ar linell ar wahân. Os ydy'r Bartneriaeth yn gyfranogwr mewn mwy na 3 chynllun rhaid rhoi manylion y cynlluniau ychwanegol ar ffurflen AAG4.

Cyfeirnod y cynllun 10.2

Y flwyddyn dreth y disgwylir i'r manteision godi i'r partneriaid – y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 10.3

- **Lwfans Adnewyddu Eiddo Busnes (BPRA)** – darllenwch dudalen PTRG 27 y Canllaw i'r Ffurflen Dreth Partneriaeth cyn cwblhau'r blychau hyn. Tynnwch y symiau sydd a wnelo ag unrhyw geisiadau am neu daliadau BPRA allan o flychau 3.20 a 3.21 (a blychau 1.34 a 1.32 o dudalennau Eiddo yn y DU Partneriaeth). Nodwch geisiadau am BPRA ym mlwch 10.4 a thaliadau ym mlwch 10.5

| Lwfans cyfalaf | Taliad mantoli |
|---|---|
| 10.4 £ | 10.5 £ |

**C11** **Datganiad** – **Rwyf wedi cwblhau ac yn dychwelyd y tudalennau canlynol atoch:**

- *1 I 5 O'R FFURFLEN HON*
- *6 A 7 DATGANIAD PARTNERIAETH (BYR)*
- *6 A 7 DATGANIAD PARTNERIAETH (LLAWN)*
- *EIDDO YN Y DU – PARTNERIAETH*
- *TRAMOR – PARTNERIAETH*
- *MASNACH PARTNERIAETH*
- *GWAREDU ASEDION TRETHADWY PARTNERIAETH*
- *CYNILION PARTNERIAETH*

Amgaeaf 11.1 o gopïau ychwanegol o dudalen 7. Roedd 11.2 partner yn y bartneriaeth hon ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Cyn i chi ddychwelyd y ffurflen dreth wedi'i chwblhau i'ch Swyddfa Cyllid a Thollau EM presennol, mae'n rhaid i chi lofnodi'r datganiad isod.

**Os rhowch wybodaeth ffug neu os na ddatgelwch unrhyw ran o incwm y bartneriaeth neu fanylion am waredu asedion trethadwy'r bartneriaeth, gallech fod yn agored i gosbau ariannol a/neu gallech gael eich erlyn.**

11.3 **Mae'r wybodaeth a roddais yn y Ffurflen Dreth Partneriaeth hon, fel y partner a enwebwyd, yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.**

Llofnod

Dyddiad

Printiwch eich enw yn llawn fan yma: ______________________

**Os ydych wedi llofnodi ar ran rhywun arall,** nodwch hefyd:

- yn rhinwedd pa swydd rydych chi'n llofnodi (er enghraifft fel ysgutor neu fel derbynnydd)
- enw'r person rydych yn llofnodi ar ei ran a'ch enw a'ch cyfeiriad **chi** yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol', blwch 3.116 ar dudalen 3.

11.4